# Rifaximin ar gyfer enseffalopathi hepatig

25 Mawrth 2015

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir Rifaximin (Targaxan) er mwyn atal pyliau o enseffalopathi hepatig mewn pobl 18 oed a throsodd.

### *Beth mae hyn yn ei olygu i mi?*

Os ydych chi wedi cael pwl o enseffalopathi hepatig, a bod eich meddyg o'r farn mai rifaximin yw'r driniaeth gywir i chi, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai rifaximin fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis i gyhoeddi'r canllawiau.

## Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Argymhellwyd rifaximin oherwydd bod y buddiannau i gleifion yn cyfiawnhau ei gost.

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

## Y cyflwr a'r driniaeth

Mae enseffalopathi hepatig yn anhwylder ar yr ymennydd sy'n gysylltiedig â chlefyd yr iau/afu. Weithiau, pan fydd iau/afu rhywun yn rhoi'r gorau i weithio'n gywir, gall gwenwyn gasglu yn y llif gwaed. Gall y gwenwyn hwn achosi i'r ymennydd beidio â gweithio'n gywir (gelwir hyn yn enseffalopathi), gan arwain at newidiadau mewn personoliaeth ac ymddygiad, yn ogystal â phroblemau gyda'r cyhyrau.

Mae rifaximin (Targaxan) yn gyffur y credir ei fod yn lleihau faint amonia a gynhyrchir gan y corff, sef un o'r gwenwynau a all achosi enseffalopathi hepatig.

## Ffynonellau cyngor a chefnogaeth

- Ymddiriedolaeth Afu/Iau Prydain, 01452 481320 7330, www.britishlivertrust.org.uk
- Liver4Life, 0800 0743494 3494, www.liver4life.org.uk

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1210-0